

LLETY

SUT I DDOD O HYD I NI


CARU BYWYD YN YR AWYR AGORED

**Parkwood Outdoors: Dolygaer** yw'r lleoliad perffaith i fwynhau gwyliau byr anturus a diogel yn un o rannau harddaf Cymru. Mae gennym amrywiaeth o lety 3 a 4 seren newydd ei adnewyddi, gyda dewisiadau ar gyfer unigolion, teuluoedd a grwpiau gan gynnwys dwy ystafell sy'n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd. Mae ein pecynnau pwrpasol yn cynnig y cyfle i chi hunanarlwyo.

**PARKWOOD OUTDOORS: DOLYGAER** Pontsticill, Merthyr Tydfil, CF48 2UR

**Llywiwyr Lloeren CF48 2UR** a dilyn yr arwyddion brown

Dilynwch yr **A470** neu'r **A465** tuag at **Merthyr Tudful** - taith yrru 15 munud o **A465 Ffordd Blaenau'r Cymoedd**



**LLETY NEWYDD EI ADNEWYDDU**

- Bwthyn Dolygaer**  
Sgôr 4 seren a lle i 6 gysgu
- Caban Dolygaer**  
Sgôr 3 seren a lle i 44 gysgu
- Chalet Dolygaer**  
Sgôr 4 seren, lle i 26 gysgu gyda 2 ystafell sy'n cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.



**SAFONAU UCHEL**

Yn **Parkwood Outdoors: Dolygaer**, mae diogelwch, yr amgylchedd ac arfer da yn hollbwysig. Rydym yn falch o fod wedi ennill yr achrediaadau canlynol:



**TALEB ARBED ARIAN WEDI AMGÂU**



**GOSTYNIGAD O £5**

**ENW**

**COD POST**

**E-BOST**

\*Hoffem gysylltu â chi, ar e-bost, i roi gwybod i chi am ddiwyddiadau newyddion a chynigion arbennig yn Parkwood Outdoors Dolygaer. Cadarnhewch sut hoffech i ni gysylltu â chi:

- Ie, cysylltwch â mi ynghlŷn â digwyddiadau newyddion a chynigion arbennig yn Parkwood Outdoors Dolygaer
- Na, peidiwch â chysylltu â mi ynghlŷn â digwyddiadau newyddion a chynigion arbennig yn Parkwood Outdoors Dolygaer

Mae telerau ac amodau'n berthnasol. Gellir ond yn defnyddio'r daleb hon yn Parkwood Outdoors Dolygaer. Mae'r cynnig yn ddilys tan 31 Rhagfyr 2018. Un daleb y person fesul trafodiad. Nid oes gan y daleb hon unrhyw werth ariannol ac ni ellir ei defnyddio ar y cyd ag unrhyw gynnig arall.

ar weithgaredd gyda'r daleb hon\*



AR AGOR TRWY'R FLWYDDYN  
**01685 848 309**



E-bost: [dolygaer@parkwoodoutdoors.co.uk](mailto:dolygaer@parkwoodoutdoors.co.uk)

[www.parkwoodoutdoors.co.uk](http://www.parkwoodoutdoors.co.uk)

# (ROESO)

**Parkwood Outdoors: Mae Dolygaer yng nghefn gwlad hyfryd Cymru rhwng y bryniau ac yn edrych dros Gronfa Ddŵr Pontsticill.**

Rydym yn dwlu ar yr awyr agored ac am i bawb ei fwynhau cymaint â ni! Gyda thîm o bobl profiadol ac angerddol sydd â chefnidir llawn mewn gweithgareddau diogel a hyfforddi, mae Dolygaer yn lle perffaith i fwynhau rhai o'ch hoff weithgareddau neu roi cynnig ar rywbeth hollol newydd mewn dwylo diogel.

## PWY YDYN NI...

Parkwood Leisure sydd berchen ar Ddolygaer; un o ddarparwyr hamdden mwyaf y DU sydd â 20 mlynedd o brofiad yn dod â hamdden, ffithrydd a gweithgareddau i'r teulu i gymunedau ledled y wlad.

Rydym yn deall pwysigrwydd amser hamdden ac yn gallu defnyddio'n 20 mlynedd o brofiad i gynnig ystod gwych o weithgareddau, llety a staff cymwys i sicrhau bod eich ymweliad yn un cofiadwy!

## BETH RYDYM YN EI WNEUD...

Rydym yn cynnig pecynnau pwrpasol wedi'u teilwra'n arbennig i chi!

P'un a ydych yma am hanner diwrnod, dros nos neu hyd yn oed wythnos gyfan, mae gennym becynnau ar gyfer:

- Teuluoedd
- Ffrindiau
- Grwpiau Corfforaethol
- Partïon i Ddnyon / Merched Ysgolion
- Digwyddiadau achlysur arbennig
- Digwyddiadau elusennol a mwy!

## PAM EIN DEWIS NI?

**EIN POBL** Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y gall yr awyr agored ei chwarae o ran magu ystod cyflawn o sgiliau ac am y rheswm hwnnw, rydym yn dewis yr hyfforddwy'r gorau yn y diwydiant sy'n gymwys, profiadol a brwdfrydig i roi profiad gwych i bawb!

**EIN HYMRWYMIAD I DDIOGELWCH** Mae iechyd a diogelwch yn brif flaenoriaeth i ni a felly rydym yn sicrhau bod gan ein hyfforddwy'r gymwysterau NBG ym mhob un o'r meysydd y maent yn addysgu ynddo, ynghyd ag yswiriant atebolrwydd y cyhoedd a chyflwgwr, cymorth cyntaf a gwiriad GDG.

**EIN LLEOLIAD** Mae ein lleoliad unigryw, ar 14 erw ym Mharc Cenedlaethol y Bannau Brycheiniog, yn cynnig lleoliad perffaith ar gyfer diwrnod anturus yn yr awyr agored neu brofiad gwersylla gwych!

## UCHAFBWYNTIAU'R GANOLFAN

- Hawdd cyrraedd iddi o'r draffordd, 30 milltir o Gaerdydd
- Ar lannau cronfa ddŵr brydferth
- Pontsticill
- 14 erw ym mharc cenedlaethol eang y Bannau Brycheiniog
- Maes Parcio AM DDM
- Amrywiaeth o lety 4 seren ar y safle
- Ystafelloedd cynhwysol sy'n cydymffurfio â DDA
- Offer newydd o ansawdd Croeso i gŵn



"Doedd dim syniad gyda fi bod cymaint o ffyrdd o gadw'n heini ar garreg fy drws! Cododd cerdded ar draws y ceunant gymaint o ofn arnaf ond ro'n i wrth fy modd yn gwneud rhywbeth dychrynlyd, rwy'n edrych ymlaen at ei drïo eto yn yr haf!"

Radio Capital, Ionawr 2016



**FFORIO OGOFAU**  
Mae fforio ogofau'n llawer o hwyl i grwpiau! Mae ein Hyfforddwy'r a'r tirlun lleol yn cynnig cyfleoedd cyffrous i fforio ogofau calchfaen Cymru.



**DRINGO CERRIG AC ABSEILIO**  
Mae yna rai o greigiau gwych yn agos at Dolygaer, yn cynnig amrywiaeth addas o gyfleoedd dringo o ystyried bod y Bannau Brycheiniog ar garreg y drws.



**TEITHIAU CERDDED AR FYNDDOEDD**  
Mae gennym lawer o deithiau cerdded amrywiol sy'n addas i'r rhan fwyaf o alluoedd, gan gynnwys rhai lleol poblogaidd megis Llwybr Taf ac, i'r rhai sy'n fwy anturus, y daith gerdded enwog i Ben y Fan.



**BYW YN Y GWYLLT**  
Trwy ddefnyddio'r technegau ac offer diweddaraf, mae ein hyfforddwy'r yn addysgu sgiliau byw gwerthfawr yn y gwylt, sy'n fuddiol ac yn hwyl!



**BEICIO MYNYDD**  
Mwynhewch y llwybrau gwych yn agos at Ddolygaer ar y beiciau mynydd. Llwybrau ar gyfer pob gallu a ffithrydd.



**CYFEIRIANNU**  
Bydd ein hyfforddwy'r cymwys yn addysgu sgiliau map a chyfeiriadu i chi gyda'n hystod o gyrsiau cyfeiriadu ar y safle ac oddi ar y safle.

# GWEITHGAREDDAU

Mwynhewch rai o'ch hoff weithgareddau neu roi cynnig ar rhywbeth newydd gyda'n hyfforddwy'r cymwys a brwdfrydig ac mae'r holl offer wedi'i gynnwys! Mae rhywbeth i bawb yn **Parkwood Outdoors: Dolygaer** gyda'n hystod o weithgareddau gan gynnwys:



**CANŴIO**  
Gall ein hyfforddwy'r sydd wedi cymhwyso â British Canoe hyfforddi pawb o ddechreuwr i'r padlwy'r mwyaf profiadol.



**CAIACIO**  
Byddwch yn dysgu padlo mewn amrywiaeth o leoliadau gwahanol yn dibynnu ar y grŵp, o gamlesi ac afonydd i gronfa ddŵr brydferth Pontsticill.



**PADLFYRDDIO**  
Gweithgaredd newydd cyffrous, llithrwrch ar hyd y dŵr ar fwrdd syrffio mawr llawn aer, gan hwpo ymlaen gyda phadl mawr, sy'n ddull nodweddiadol o deithio yn Hawaii.



**HWYLIO**  
P'un a ydych yn hwyliwr profiadol neu'n ddechreuwr llwyr, mae ein hyfforddwy'r cymwys wrth law i helpu ac i sicrhau eich bod yn gwbl ddiogel.



**ADEILADU RAFFT**  
Mae adeiladu rafft yn llawer o hwyl ac yn rhoi cyfle i fod mor gyfredigol ag y dymunwch wrth ddysgu adeiladu a phadlo eich cwch o gwmpas cwrs yn ddiogel.



**ANTUR CEUNANT**  
Mae profiad Antur Ceunant yn cynnwys sgrialu trwy afonydd, dringo rhaeadrau a lithro i lawr dyfroedd gwyllt.



**SAETHYDDIAETH**  
Llawer o hwyl a gall unrhyw un roi cynnig arni. Ar ôl i chi ddysgu defnyddio eich bwa rydym yn gwahodd pob saethwr, ar ddiwedd y cwrs, i gymryd rhan mewn cystadleuaeth.



"Amser hynod wych yn Parkwood, roedd yr hyfforddwy'r yn ardderchog a chawson ni lawer mwy na thalon ni amdano. Mae'n werth yr arian yn llwyr a byddwn i'n ei argymhell i unrhyw un! Ewch yno'n llawn brwdfrydedd ac yn barod i wneud unrhyw beth ac fe gewch chi'n bendant brofiad gwell na'r disgwyl!"

Trip Advisor Awst 2017

**LLETY A CHYFLEUSTERAU**

- Amrywiaeth o lety 3 a 4 seren gyda bwyd ac heb fwyd newydd ei adnewyddu
- Lle i 6, 26 a 44 gysgu mewn 3 dewis o lety.
- Gellir darparu trafniadaeth
- Gwersylla
- Bloc o gawodydd a chyfleusterau golchi dillad
- Caffi
- Canolfan Ddysgu



Ffoniwch 01685 848 309 nawr i drefnu eich antur nesaf!